

DATBLYGU MODEL YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae Cenhadaeth Ein Cenedl yng Nghymru yn uchelgeisiol ac yn arloesol, ac mae'n gofyn i fudd-ddeiliaid ar bob lefel gydweithio i godi safonau, i leihau'r bwlch cyrhaeddiad, a chyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol.

Mae'r diwygio trawsnewidiol sydd ei angen os am gyflawni'r nodau hyn yn cyflwyno amgylchiadau heriol i bob ysgol. Mae'n hollbwysig felly bod arweinwyr a staff ym mhob sefydliad yn derbyn anogaeth a chefnogaeth yn y gwaith o ffurfio partneriaethau cryf ac effeithiol o fewn ac ar draws y system addysg. Bydd datblygu ymgysylltiad cymheiriaid aml-lefel ac aml-haenog, a gaiff ei greu a'i berchnogi gan yr ysgolion eu hunain, hefyd yn caniatáu i sefydliadau fabwysiadu agwedd integredig tuag at y daith ddiwygio cenedlaethol. Caiff y dull gweithredu integredig ei gefnogi'n effeithiol gan yr awdurdodau lleol a GwE.

Rydym yn credu'n gryf y dylai ymgysylltiad cymheiriaid fod yn brif yrrwr wrth i ysgolion gyflawni'r diwygiadau cenedlaethol yn effeithiol. Ein gwledigaeth yw cael ysgolion rhagorol sy'n cydweithio'n naturiol ac yn cyd-adnabod cyfeiriad ar gyfer gwelliant.

Mae'r ddogfen hon yn nodi patrwm posib ar gyfer datblygu model ymgysylltiad cymheiriaid ystyrion yn rhanbarth Gogledd Cymru; un sydd yn mabwysiadu agwedd integredig tuag at y daith ddiwygio ond un sydd hefyd yn caniatáu hyblygrwydd yn y modd y caiff cydweithio ei ddiffinio o fewn yr wyth prif faes a nodir isod.

#diwygioaddysgcymru



Mae'r dull gweithredu rhanbarthol eisoes wedi mabwysiadu model gweithio clwstwr er mwyn cefnogi'r prif feysydd diwygio trawsnewidiol megis datblygu cwricwlwm ac ADY. Er mwyn integreiddio holl feysydd y daith ddiwygio'n llawn, mae dulliau gweithredu tebyg wrthi'n cael eu ffurfioli ar gyfer y prif feysydd eraill, sef atebolrwydd, digidol, a'r iaith Gymraeg.

Mae'r papur hwn yn egluro ein dull gweithredu o fewn agwedd 'atebolrwydd' y daith ddiwygio. Mae'n manylu ar sut y gellir defnyddio ymgysylltu â chymheiriaid fel sail i gylch trwyadl o ddatblygiad a gwelliant parhaus. Rydym yn credu y dylai ymgysylltiad a chefnogi cymheiriaid fod yn rhan annatod o welliant ysgol, wrth i ni symud tuag at system o hunan-wella, gan barhau i gefnogi'r ysgolion hynny sy'n destun pryder.

Mae gwledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system o werthuso, gwella ac atebolrwydd yn un sy'n deg, yn gydlynol, yn gymesur, yn dryloyw ac yn seiliedig ar werthoedd cyffredin ar gyfer addysg yng Nghymru. Mae Cenhadaeth Ein Cenedl yn ein hymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i sefydlu trefniadau newydd ar gyfer arfarnu a gwelliant, a hynny ar bob lefel. Bydd angen i'r trefniadau hyn fod yn ddigon cadarn a chryf i sicrhau'r gwelliannau a fynnir, yn

Atodiad 1

enwedig felly o fewn y sector uwchradd. O fewn y trefniadau hyn, mae disgwyliad clir i ysgolion ddatblygu nid yn unig y capasiti a'r sgiliau angenrheidiol i'w herio eu hunain yn effeithiol ond hefyd y gallu i weithio ar y cyd ac yn drefnus mewn model gwella ysgol sy'n seiliedig ar adolygiad cymheiriaid proffesiynol.

Ar 22 Ionawr 2019 yn Venue Cymru, Llandudno, ymgwymerodd GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol â chymau cyntaf proses ymgynghori cynhwysfawr â chynrychiolaeth o benaethiaid ar amrywiol agweddau'r *Daith Ddiwygio Genedlaethol*. Rhoddwyd cyfleoedd helaeth i dros 400 o gynadleddwyr drafod sut y gallai rhanddeiliaid allweddol gefnogi a herio ei gilydd orau er sicrhau ein bod yn cyfrannu'n effeithiol i Genhadaeth Ein Cenedl. O ran datblygu fframwaith rhanbarthol ar gyfer cymorth ac ymgysylltiad cymheiriaid, gofynnwyd i gynadleddwyr ymateb i gyfres o gwestiynau ac ymholiadau. Yn benodol:

- Beth yw egwyddorion sylfaenol model effeithiol?
- Sut ddylid penderfynu ar grwpiau/clystyrau cymheiriaid? A ddylem fabwysiadu trefn gyffredin ar gyfer pob ysgol waeth beth fo'r 'categori cymorth' ar hyn o bryd? Neu, a fyddai dull gwahaniaethol yn fwy ymarferol yn y tymor byr?
- Sut ydym ni'n sicrhau bod y gwaith a wneir o fewn grŵp/clwstwr cymheiriaid yn digwydd drwy gydol y flwyddyn yn hytrach na dim ond mewn 'digwyddiad blynyddol'?
- Sut allai GwE gefnogi'r broses yn fwyaf effeithiol?
- Mae'r mwyafrif o ysgolion y rhanbarth eisoes yn cydweithio mewn clystyrau neu'n rhan o fodelau cefnogaeth gan gymheiriaid, naill ai o fewn eu sector neu'n draws sector. Beth fyddai'r ffordd orau o gyfunion'r 'model ymgysylltu â chymheiriaid a dilysu' â mentrau cydweithredol eraill sydd ar waith ar hyn o bryd?
- Beth yw'r anghenion dysgu proffesiynol er mwyn datblygu model cadarn ar gyfer 'ymgysylltu â chymheiriaid a dilysu'? Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r anghenion hyn?

Roedd nifer o themâu cyffredin a negeseuon pwysig yn treiddio trwy ymatebion budd-ddeiliaid y sectorau cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Yn benodol:

- dylid mabwysiadu dull gweithredu adolygu gan gymheiriaid yn rhanbarthol er mwyn symud yn nes at system hunan wella;
- ni ddylid datblygu'r model adolygu gan gymheiriaid er mwyn sefydlu system o '*ffug arolygiadau*';
- dylai'r holl fudd-ddeiliaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn creu'r amodau cywir ar gyfer adolygu effeithiol gan gymheiriaid;
- dylem gytuno'n rhanbarthol ar gyfres o egwyddorion ac iaith dechnegol ar gyfer ein model, a'u mabwysiadu;
- dylem gytuno ar ffiniau'r fframwaith, a fydd yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion weithredu ystod o fodelau;
- dylai ysgolion gael rhyddid a hyblygrwydd i ddethol eu cymheiriaid;
- dylai'r model gynnwys ymgysylltiad cymheiriaid ar bob lefel mewn ysgol;
- dylai'r model hybu ymddiriedaeth, gonestrwydd, tryloywder a ffydd broffesiynol;
- dylai ymgysylltu fod yn broses gefnogol a chynaliadawy yn hytrach na digwyddiad beichus heb ddilyniant iddo;
- dylai'r model gefnogi symudiad diwylliannol tuag at berchenogaeth ar y cyd.

Mae Steve Munby a Michael Fullen, yn eu papur '*Inside-out and downside-up*' (2016) yn amlinellu'r ffactorau llwyddiant hanfodol ar gyfer cydweithrediad effeithiol rhwng ysgolion ar draws y system gyfan fel a ganlyn:

- diben cydweithio, yn ei hanfod, yw **gwella deilliannau**;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar **ddiben moesol eglur a rennir**;
- mae **tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd** yn hanfodol;
- mae ymrwymiad i adolygu effeithiol gan gymheiriaid, a chapasiti i wneud hyn, yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant;
- mae angen cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel rhan o **berthynas hirdymor** ac ymrwymiad i **wella arferion a systemau yn gyson drwy gylchredau o ymholiadau cydweithredol**;
- mae'n rhaid i'r bartneriaeth feddu ar gynllun i ddatblygu o **gydweithio i gyfrifoldeb ar y cyd i rannu atebolrwydd proffesiynol**;
- dylai'r **bartneriaeth fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion** ac ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau;
- **mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill** fel eu cyfraniad i system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Yn ystod Tymor yr Hydref 2018, gofynnodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth GwE i Steve Munby adolygu effeithiolrwydd eu harfer bresennol. Er iddo nodi nifer o bwyntiau cadarnhaol, fe wnaeth Munby hefyd bwysleisio y dylai cyfeiriad gwelliant ysgolion rhanbarthol gynnwys sylw pellach at:

- symud oddi wrth newid o'r brig i lawr tuag at weithdrefnau sy'n rhoi'r grym yn nwylo pobl er mwyn creu cynaliadwyedd tymor hir;
- sicrhau naratif rymus, eglur a symbylol o symud tuag at arweinyddiaeth ochrol a chyfrifoldeb torfol; lle y caiff gweithredu ei wahaniaethu ar sail anghenion penodol ysgolion a chlystyrau o ysgolion;
- paratoi at fyw â dull economi-gymysg, blêr, lle y gall fod rhai clystyrau yn arwain y ffordd ac eraill ymhell ar ei hôl hi, ond yn gwneud cynnydd yr un fath;
- hyrwyddo cydweithio yng nghyd-destun yr agwedd '*gwirfoddol ond anorfod*';
- darparu cefnogaeth ond heb or-reoli datblygiadau;
- hyrwyddo broceriaeth cefnogaeth ysgol-i-ysgol er mwyn sicrhau bod athrawon ac arweinwyr yn dod i gysylltiad ag arfer wych, gan felly osgoi ynysigrwydd ac ailgylchu arferion cymedrol;
- sicrhau bod Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi eu harfogi i ymgymryd yn effeithiol â swyddogaethau hyrwyddo ac hyfforddi, a'u bod yn medru sicrhau ansawdd gwaith ysgolion er mwyn osgoi beirniadaeth sy'n honni bod ymgysylltu â chymheiriaid yn 'rhy gyfeillgar';
- datblygu strategaeth adolygu cymheiriaid y mae ysgolion yn ei werthfawrogi ac yn dymuno bod yn rhan ohono, a gwneud ysgolion yn rhan o'r broses o'i lunio;
- cynnwys adolygu gan gymheiriaid yng ngwaith clystyrau, fel bod adolygu gan gymheiriaid yn rhan o'r modd yr adeiladir ymddiriedaeth o fewn clwstwr dros amser, ac yn ffordd o weithio yn hytrach nac yn broses heb ddilyniant; ac
- adnabod y sgiliau sydd eu hangen ar arweinwyr system [pwysleisiodd Munby fod y sgiliau hyn yn wahanol i'r sgiliau sydd eu hangen mewn '*arweinyddiaeth sefydliadol*'] a datblygu rhaglen gefnogi a datblygu ar gyfer arweinwyr system y dyfodol.

Rhoddodd Munby anogaeth i'r rhanbarth fod yn eangfrydig, a chroesawu heriau gan rai o'r tu allan i Ogledd Cymru o ran ymgysylltu effeithiol â chymheiriaid; a chyfeiriodd GwE at arferion da mewn mannau eraill. Mae GwE hefyd yn credu y dylai model ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd yn agos â'r gogwyddau a adnabuwyd o fewn cyhoeddiad OECD, '*What Makes a School a Learning Organisation?*', yn ogystal ag adlewyrchu'r egwyddorion a'r dull rhanbarthol ffafredig a fynegwyd gan Benaethiaid yn y cyfarfod ymgynghorol i Benaethiaid yn Venue Cymru, a grybwyllwyd eisoes.

Dylai ymgysylltu â chymheiriaid fod yn sail i gylch trwyadl o welliant parhaus, ac fe ddylai gynnwys:

- **Hunan-adolygiad** : Dylai adolygu effeithiol gan gymheiriaid gychwyn trwy ofyn pa mor dda mae'r ysgol yn ei hadnabod ei hun, ac fe ddylai gael ei arwain gan yr ysgol sy'n cael ei hadolygu. Dylai'r pecyn cymorth hunan arfarnu cenedlaethol newydd sydd wedi ei ddatblygu gan Estyn, yr OECD, a'r proffesiwn chwarae rhan allweddol yn yr agwedd hon. Dylai hunan arfarnu ganolbwyntio ar y dysgwyr, eu cyraeddiadau, eu cynnydd a'u profiadau yn yr ysgol; ac hefyd ar ddysgu ac addysgu, arweinyddiaeth, datblygiad diwylliant sefydliad dysg, lles disgyblion a staff, tegwch a chynhwysiad. Wrth symud ymlaen, dylai'r hunan arfarnu hefyd ganolbwyntio ar bedwar diben y cwricwlwm newydd a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan yr ysgol tuag at gyflawni'r cwricwlwm newydd. Dylai'r broses hunan arfarnu alluogi i'r ysgol adnabod cryfderau a blaenoriaethau i'w gwella. Dylai hefyd adnabod agweddau o'u taith welliant sy'n galw am gefnogaeth cymheiriaid i gynorthwyo â gwelliant.
- **Adolygu gan gymheiriaid** : Mae gan yr adolygiadau mwyaf effeithiol gan gymheiriaid ffocws gytunedig. Diben anhepgor y cydweithio yw gwella deilliannau, a dylai unrhyw sylw y cytunir arno fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn o'r hyn sydd ei angen er mwyn gwella'r deilliannau a fyddai'n cynnig y budd mwyaf i'r ysgol. Mae adolygwyr cymheiriaid sy'n gweithio fel tîm neu fel grŵp o dri ar eu gorau lle mae modd iddynt driongli tystiolaeth a dadansoddi eu canfyddiadau ar y cyd. Nid mynegi barn yw eu diben ond yn hytrach canfod tystiolaeth a chytuno ar ganfyddiadau i'w rhannu â'r ysgol. Mae'n hanfodol nad yw'r broses adolygu gan gymheiriaid yn troi yn system o ffug-arolygon. Mae'n rhaid i'r bartneriaeth fod yn seiliedig ar bwrpas moesol eglur a rennir; ac mae tryloywder, ymddiriedaeth a gonestrwydd yn rhan greiddiol o'r broses. Dylai'r adolygiad gan gymheiriaid hefyd gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol a chynnwys arweinwyr ar bob lefel.
- **Cymorth Ysgol i Ysgol** : os mai bwriad adolygu gan gymheiriaid bod yn gyfrwng i welliant parhaus mewn systemau ysgol, yna dylai fynd gam ymhellach na'r adolygiad ei hun, a chynnwys cymorth ysgol i ysgol neu gefnogaeth clwstwr. Lle caiff y deilliannau eu perchnogi gan staff, bydd yr effaith hirdymor a chynaliadwy yn fwy. Mae hyn yn helpu gwella capasiti a chynyddu gwytnwch ymhellach o fewn system sy'n hunan wella. Dylai'r partneriaethau a sefydlir felly fynd y tu hwnt i arweinwyr ysgolion, gan ymgysylltu â disgyblion, athrawon, teuluoedd a chymunedau.

Mae GwE a'r chwe awdurdod lleol rhanbarthol am weithio gydag ysgolion i sefydlu model rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan benaethiaid, ac hefyd i ddysgu gan arferion gorau ar lefel genedlaethol a thu hwnt. Byddai Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn hwyluso ac yn rhoi cefnogaeth lawn i ysgolion yn y gwaith o ddatblygu eu modelau ymgysylltu cymheiriaid. Fel y mae Munby a Fullen (2016) wedi ei nodi, mae ymrwymiad i adolygu effeithiol gan gymheiriaid, a'r capasiti i wneud hynny, yn creu'r peiriant sy'n llywio gwelliant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig y bydd hunan arfarniadau ysgolion yn mynd trwy broses o ddilysu allanol. Diben hyn yw sicrhau bod yr hunan arfarnu yn adlewyrchu cryfderau a blaenoriaethau'r sefydliad er gwella yn deg a chywir, a bod hynny'n cyd-fynd â lefel briodol o gefnogaeth. Dylai unrhyw fodel ymgysylltu â chymheiriaid gefnogi'r broses hon. Credwn yn gryf y dylid cynnal y broses ddilysu 'ar y cyd' ag ysgolion, fel bod ymgysylltu â chymheiriaid yn rhan annatod o'r broses honno. Mae'n ofynnol felly nad yw proses ddilysu yn ymddangos fel 'ffug-arolwg' sy'n datblygu yn 'ddigwyddiad' sy'n digwydd 'o'r brig i lawr', nac fel rhywbeth sy'n digwydd i'r ysgol.

Rydym felly wedi gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan grwpiau o ysgolion i gymryd rhan mewn rhaglen beilot ymgysylltu â chymheiriaid.

Rydym yn gobeithio cefnogi amrywiaeth o fodelau clwstwr, megis ysgolion bach gwledig, ysgolion trefol mawr, traws-sector, trawsawdurdod neu fodelau arloesol eraill. Bwriadwn ddarparu rhaglen

Atodiad 1

hyfforddi berthnasol a chynhwysfawr i gonsortia, ALL a staff ysgolion fel bod gan yr holl fudd-ddeiliaid aeddfedrwydd a chpasiti uwch i berchnogi'r model ymgysylltu â chymheiriaid sy'n llawn adlewyrchu'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodwyd gan benaethiaid.

Credwn yn gryf y byddai rhaglen beilot o'r fath yn sicrhau bod rhanbarth Gogledd Cymru yn llunio model a fframwaith effeithiol i ymgysylltu â chymheiriaid. Trwy fod â pherchenogaeth dros ddatblygiadau gallwn hefyd sicrhau bod ein model ymgysylltu â chymheiriaid wir yn adlewyrchu angen lleol, tra'n llawn gefnogi'r cyfeiriad cenedlaethol o ran datblygiad diwylliant sy'n seiliedig ar fod yn agored, ymddiriedaeth a chyd-ymdrech gytun ar draws y system. Mae angen i ymgysylltu â chymheiriaid fod yn broses drylwyr a chadarn. Fel yr awgrymodd Munby a Fullen (2016), mae partneriaethau'n croesawu gwaith craffu a chefnogaeth gan bartneriaethau eraill fel eu cyfraniad i system leol, ranbarthol a chenedlaethol gysylltiedig.

Model Ymgysylltu â Chymheiriaid

